**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

**RHAGLEN HYFFORDDI GALLU RHEOLI CONTRACTAU**

**Pam fod Llywodraeth Cymru yn cynnig rhaglen Rheoli Contractau?**

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario mwy nag £8 biliwn ar gontractau allanol, felly mae gyrru effeithlonrwydd arian cyhoeddus yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gorau sy'n cefnogi llesiant Cymru.

Un ffordd yn unig y gall y sector cyhoeddus sicrhau defnydd effeithiol o arian cyhoeddus yw caffael effeithiol. Mae rheoli'r berthynas gyda chyflenwyr yn dilyn dyfarnu contract hefyd yn rhan hanfodol bwysig o'r cylch oes masnachol.

Mae rheoli contractau yn hyrwyddo perthynas dda gyda'ch cyflenwyr ac yn sicrhau bod amcanion contractiol yn cael eu cyflawni gyda'r nod o ddarparu gwell canlyniadau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol.

Rydym am sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol gan sector Cyhoeddus Cymru a gwella'r canlyniadau hyn.

**Pam fod Llywodraeth Cymru yn cynnig Rhaglen Gallu Rheoli Contractau Llywodraeth y DU?**

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i ddatblygu rhaglen reoli contractau gyfoes sy'n cynnig egwyddorion a hanfodion rheoli contractau.

Mae'r achrediadau yn gymwysterau proffesiynol cydnabyddedig, ac yn drosglwyddadwy ar draws holl adrannau llywodraeth ganolog. Caiff pob un ei ardystio gan: Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth, WorldCC, Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS) a Swyddfa Safonau DPP, ac yn seiliedig ar egwyddorion craidd arferion gorau sy'n berthnasol i bob Rheolwr Contractau.

**Ar gyfer pwy mae'r Rhaglen Rheoli Contractau hon yn addas?**

Bydd y rhaglen hon o ddiddordeb i unrhyw un sy'n rheoli contractau a chyflenwyr o adrannau llywodraeth ganolog, sefydliadau'r sector cyhoeddus ehangach, neu sefydliadau'r sector awdurdodau lleol.

Os mai cymorth gweinyddol, rheoli contractau, arwain contractau neu waith sy'n fwy seiliedig ar bolisïau neu strategaethau yw eich ffocws, dyma raglen ddatblygu gallu a fydd yn hyfforddi ac yn achredu'r rheini sydd â rôl i'w chwarae mewn rheoli contractau.

Boed yn weithiwr proffesiynol sy'n rheoli contractau yn llawn amser, neu'n rheoli ffurflenni contractau am gyfran o'ch rôl yn unig, mae cwrs datblygu ac achredu o fewn y rhaglen a fydd yn addas iawn ar eich cyfer.

**Sawl lefel sydd i'r rhaglen?**

Mae 5 lefel i'r rhaglen, Sylfaen; y Tu Hwnt i Sylfaen; Ymarferydd; Arbenigwr; Prif Berchennog Cyfrifol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau mynediad at raglenni dysgu ar-lein ar lefel Sylfaen a'r Tu Hwnt i Sylfaen, ac maent bellach yn treialu'r rhaglen Ymarferydd ac Arbenigwr ar y cyd â Swyddfa'r Cabinet.

Dim ond ar gyfer y lefelau Ymarferydd ac Arbenigwr y mae angen ffurflenni mynegi diddordeb.

Gall sector cyhoeddus Cymru gael mynediad at y rhaglenni Sylfaen a Tu Hwnt i Sylfaen am ddim. Cofrestrwch yma er mwyn cwblhau'r hyfforddiant.

**A oes rhaid imi gwblhau'r lefelau Sylfaen a Tu Hwnt i Sylfaen er mwyn mynd ymlaen at y lefelau dilynol?**

Oes, mae'n ofyniad statudol a rhaid eu cwblhau cyn gwneud cais.

**Lle mae modd dod o hyd i fwy o wybodaeth am y rhaglen?**

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael yma (Saesneg yn unig).

Mae'r wybodaeth ategol o dan 'About the Programme' hefyd yn rhoi manylion y rhaglen gyflawn, y modiwlau, hyd y rhaglen a'r dull darparu.

**Sut ddylwn i wybod os mai lefel Arbenigwr neu Ymarferydd sy'n iawn ar fy nghyfer i?**

Bydd angen ichi asesu lefel y gweithgarwch rheoli contractau yr ydych yn ymwneud ag ef, a lefel risg a chymhlethdod y contract er mwyn penderfynu ar y rhaglen briodol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y ddolen at wybodaeth am y rhaglen.

Mae offeryn ar gael hefyd er mwyn cefnogi rheolwyr contractau i asesu lefelau risg a chymhlethdod sy'n gysylltiedig â'u contract(au). Nid yw hwn yn offeryn gorfodol a gellir ei ddefnyddio pan fo Rheolwyr Contractau yn teimlo bod angen cefnogaeth bellach i benderfynu ai rhaglen ar lefel Ymarferydd neu lefel Arbenigwr sy'n briodol.

Os oes angen mynediad at yr offeryn hwn arnoch, cysylltwch â GalluMasnachol@llyw.cymru

**Pwy fydd yn noddi'r rhaglen?**

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y rhaglen yn cael ei hariannu'n llawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddogaeth Masnachol y Llywodraeth a Gwasanaeth Masnachol y Goron er mwyn ariannu cost eich lle ar y rhaglen Ymarferydd/Arbenigwr. Er gwybodaeth, dyma'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni dysgu:

Ymarferydd - £6,100 y pen.

Arbenigwr - £7,700 y pen.

Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ffioedd canslo, a byddant yn cael eu codi ar eich sefydliad, yn unol â thelerau'r Cytundeb Dysgwr.

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais ar gyfer y rhaglen hon?**

Dim ond Rheolwyr Contractau sy'n gweithio ar gontractau canolig i uchel o ran cymhlethdod a risg ac sydd â diddordeb cwblhau'r gweithdai pynciol ar-lein ar lefel Ymarferydd ac Arbenigwr sy'n gymwys i fynegi diddordeb.

Mae llefydd ar y rhaglen hon yn gyfyngedig oherwydd y costau uchel fesul ymgeisydd. Nid yw cwblhau ffurflen mynegi diddordeb yn gwarantu y cewch eich dewis ar gyfer y rhaglen.

**Beth fydd y disgwyliadau arnaf pe byddwn yn llwyddo i gael nawdd?**

Cyn y gallwch ddechrau eich rhaglen:

Darllenwch yr wybodaeth ynghylch y cwrs a chytunwch i ymrwymo i'r rhaglen.

Rhaid ichi fod ag Achrediad Sylfaen Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth. Ni fyddwn yn noddi unrhyw ddysgwr os nad yw wedi cwblhau'r rhaglen Sylfaen.

Rhaid ichi ymrwymo i fynychu'r holl weminarau, cwblhau'r gwaith angenrheidiol o flaen llaw, a chyflawni'r Asesiad Rheoli Contractau a'r Ganolfan Ddatblygu o fewn amserlenni disgwyliedig y rhaglen. Bydd methu cwblhau eich taith fel dysgwr mewn pryd yn golygu eich bod yn cael eich tynnu oddi ar y Rhaglen. 6 mis yw'r cyfnod disgwyliedig ar gyfer cwblhau lefel Ymarferydd, a 9 mis ar gyfer y lefel Arbenigwr.

Rhowch yr amser dyledus i'r rhaglen er mwyn cael y gorau ohoni; dylech ddisgwyl treulio tua 2 – 3 awr bob wythnos yn gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

Rhaid ichi ganslo unrhyw weminarau na allwch eu mynychu gyda 28 diwrnod o rybudd. Bydd rhaid i'ch sefydliad dalu ffi os byddwch yn canslo yn hwyr.

Rhaid i unrhyw ddysgwr sy'n cael cyfle i ddechrau'r rhaglen yn Haf 2024 ei chwblhau erbyn mis **Ebrill 2025**. Mae'r cwrs yn cael ei ddiweddaru ac ni fydd cynrychiolwyr presennol yn cael cynnig dyddiadau modiwl y tu hwnt i fis Ebrill 2025.

**Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennyf am gwblhau'r rhaglen hon?**

Rhaid ichi fod yn barod i gymryd rhan mewn sesiwn adborth, a rhannu sut mae'r hyn rydych wedi ei ddysgu wedi gwella eich perfformiad o ran rheoli contractau.

Bydd rhannu eich barn am y rhaglen o gymorth inni sicrhau perthnasedd y rhaglen o ran sector cyhoeddus Cymru, ond bydd hefyd yn sicrhau ei llwyddiant fel bod y rhaglen yn parhau ar gyfer ymgeiswyr yn y dyfodol.